# Y CYNGOR DYDD IAU, 1 RHAGFYR 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Beca Brown, Glyn Daniels, Anwen Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, June Jones, Menna Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Menna Baines, Stephen Churchman, Nia Jeffreys, Linda A.Jones a Beca Roberts.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2022 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 7 – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2023/24 ac eitem 8 – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2023/24.

(1) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen - Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2023/24 am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Jina Gwyrfai oherwydd bod aelod o'r teulu yn hawlio'r budd-dal.
- Y Cynghorydd Gareth A.Roberts oherwydd bod aelod agos o'r teulu wedi derbyn disgownt Treth Cyngor.
- Y Cynghorydd Dewi Jones oherwydd bod aelod o'r teulu yn derbyn gostyngiad.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(2) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2023/24 am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Jina Gwyrfai oherwydd bod ganddi dŷ gwag yn ei meddiant, ond yn bwriadu ei rentu i deulu Cymraeg lleol.
- Y Cynghorydd Huw Llwyd Rowlands oherwydd bod perthynas agos iddo'n berchen ar ail eiddo yng Ngwynedd fydd yn debygol o gael ei effeithio gan unrhyw benderfyniad i gynyddu (neu leihau) y premiwm Treth Cyngor yn ystod 2023/24.
- Y Cynghorydd Angela Russell oherwydd ei bod yn berchen ar ail gartref.
- Y Cynghorydd Linda Morgan oherwydd bod ganddi deulu a ffrindiau gydag ail gartrefi ac eiddo gwag.
- Y Cynghorydd Elfed P.Roberts oherwydd ei fod yn berchen ar eiddo sy'n cael ei osod a bod ganddo deulu sy'n gosod eiddo.
- Y Cynghorydd Dewi Jones oherwydd bod aelod o'r teulu yn berchen tŷ gwag.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Dafydd Davies a'r teulu ar golli ei dad.
- Y Cynghorydd Elin Walker Jones a'r teulu ar farwolaeth ei brawd.
- Y Cynghorydd Beth Lawton a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer.
- Y Cynghorydd Nia Jeffreys a'r teulu ar golli ewythr.

Cydymdeimlwyd hefyd â'r canlynol:-

- Teulu Godfrey Northam, fu'n cynrychioli ardal Bethesda ar y Cyngor hwn am sawl blwyddyn, ac un a roddodd flynyddoedd o wasanaeth i'w ardal.
- Teulu Will Roberts, fu'n Brif Swyddog Stadau'r Cyngor am flynyddoedd lawer.
- Teulu John Eryl Thomas, cyn Brif Swyddog Gweinyddol yr Adran Addysg am flynyddoedd lawer.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Louise Hughes, oedd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar, a hefyd i'r Cynghorydd Rob Triggs, oedd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd, ac i unrhyw un arall oedd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Rhun ap Gareth, cyn ddirprwy Swyddog Monitro'r Cyngor hwn, ar ei benodiad diweddar yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Ian Jones ar ei benodiad yn Bennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, ac yn Bennaeth Gwasanaeth Democratiaeth.

Hefyd, llongyfarchwyd y canlynol:-

- Mared Jones o Glwb Dinas Mawddwy ar ennill Coron Eisteddfod Ffermwyr Ifanc yn Eisteddfod Cymru.

- Clwb Dinas Mawddwy ar ennill Eisteddfod Meirionnydd.
- Osian Pryce ar ennill Pencampwriaeth Prydain ym myd ralio.

Nodwyd y bu i CND Cymru drefnu taith 7 diwrnod o Orsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa yn ddiweddar. Cyfarfu'r Dirprwy Arweinydd â hwy wrth iddynt gyrraedd Caernarfon, a chyflwynwyd datganiad ganddynt iddi. Nodwyd bod y datganiad yma ar gael i unrhyw un oedd yn dymuno ei weld.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

**(A) Cwestiwn gan Aelod o'r Cyhoedd**

**Cwestiwn gan Mr Paul D.Gill (cyfeiriad wedi'i ddarparu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad)**

Pam bod y Cyngor yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor mewn ardal sy'n ddibynnol iawn ar y diwydiant twristiaeth a gwariant lleol gan dwristiaid, heb ymchwil annibynnol ac adroddiad ar hynny i'r Cyngor ar effaith polisi o'r fath ar yr economi leol, o gofio y bydd gorfodi'r cynnydd yn arwain at lai o wario'n lleol gan dwristiaid gan roi swyddi a busnesau lleol mewn perygl, yn arbennig mewn cyfnod o chwyddiant a biliau ynni uchel?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Ioan Thomas**

Wrth roi'r grym i gynghorau i godi Premiwm ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu'r Premiwm, sef *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*.

Mae'r Canllawiau Statudol yn amlinellu'r math o ffactorau all fod o gymorth i awdurdodau lleol eu hystyried pan yn fwriad cyflwyno Premiwm. Pob tro mae'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn ystyried y Premiwm, mae'n ystyried y canllawiau hyn.

Mae'r Canllawiau Statudol yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy, a hefyd i gynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

Nod y Premiwm yw cynorthwyo'r maes tai, ac mae ymrwymiad gwariant y Cynllun Gweithredu Tai yn dystiolaeth o hyn.

Mae'r Premiwm yn ffordd ddiffuant o geisio taro balans rhwng effaith ail gartrefi ac eiddo gwag ar ein cymunedau a chynnal yr economi ymwelwyr. Mae'r Cabinet yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y diwydiant twristiaeth. Rhaid i ni gael twristiaeth gynaliadwy a bydd hynny yn destun astudiaeth ar wahân maes o law. Credwn mai sail economi gadarn yw economi lle mae gan bobl Gwynedd gartrefi, ac yn cyfrannu i'r economi leol. Allwn ni ddim anwybyddu sefyllfa lle amcangyfrifir y bydd 1,400 o unigolion wedi cyflwyno eu hunain yn ddigartref erbyn diwedd eleni – sef dwbl y nifer oedd yn cyflwyno cyn Covid-19. Byddwn fel Cyngor yn lletya dros 600 o bobl mewn

llety dros dro eleni, lle'r oedd y ffigwr oddeutu 200 cyn cyfnod Covid. Nid dyma yw sylfaen economi gadarn, gynaliadwy.

Nid yw codi a chynyddu'r premiwm yn fater hawdd ac nid yw Cyngor Gwynedd erioed wedi honni ei fod yn ddewis syml. Mae gofyn i aelodau bwyso a mesur nifer o ffactorau cyn dod i benderfyniad heddiw, gan gynnwys effaith y premiwm ar yr economi ymwelwyr. Mae hyn yn un o'r negeseuon sy'n dod o ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cael sylw yn yr astudiaethau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad cynhwysfawr y bydd yr aelodau yn ystyried heddiw.

**Cwestiwn Atodol gan Mr Paul D.Gill**

Beth ydych chi'n ddweud wrth bobl leol sydd â busnesau lleol, fel rhai o'r bobl sydd yma heddiw, y bydd busnesau llawer ohonynt yn wynebu niwed sylweddol, gan gynnwys rhai fel Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, rhan o Safle Treftadaeth Byd UNESCO? Os byddwch yn gosod unrhyw bremiwm pellach, rhaid mai chwi fydd yr unig gyngor yn unman fyddai'n peryglu bodolaeth rhan o Safle Treftadaeth Byd. Bydd rhai busnesau'n mynd yn fethdalwyr hyd yn oed o ganlyniad uniongyrchol i osod premiwm pellach. A pheidiwch â dweud wrthyf na fyddai'n gwneud hynny, oherwydd mi fydd yn gwneud hynny, fel y byddai'r Cyngor yn gwybod petai wedi cyflawni asesiad economaidd priodol.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

Fel aelod o'r Cyngor sy'n cynrychioli ward yng Nghaernarfon, sy'n Safle Treftadaeth Byd, rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau a diogelu'r statws yma. Rydw i'n derbyn ei bod yn bosib' y bydd rhai busnesau yn cael eu heffeithio, ond rwy'n meddwl eich bod chi wedi mynd yn llawer iawn rhy eithafol yn son am gwmnïau yn fethdalwyr, ayb, ond rwy'n meddwl bod y codiad yma yn un rhesymol iawn.

**(B) Cwestiynau gan Aelodau Etholedig**

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

Pa ganran yn union o'r bwyd sydd yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor mewn ysgolion, lleoliadau gofal a chanolfannau eraill, sydd wedi ei dyfu neu ei brosesu yng Ngwynedd? Gan fod angen diogelu'r gadwyn fwyd leol oherwydd costau a phroblemau rhyngwladol ar hyn o bryd, gofynnaf i'r Aelod Cabinet sicrhau fod yr holl fwyd sydd yn cael ei bwrcasu yn tarddu yn lleol neu wedi ei brosesu yn lleol. O dderbyn bod y Cyngor yn prynu canran uchel o fwyd gan ddosbarthwyr lleol, a allaf gael gwarant fod y bwyd yn tarddu o fewn Gwynedd neu siroedd cyfagos?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Jones**

1. Mae'r Cyngor wedi cynnal proses dendro yn Hydref 2019 i sefydlu cytundebau i gyflenwi a dosbarthu bwyd i Ysgolion a Chartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd.
2. Fel rhan o'r gwaith i hybu darparwyr bychan i gystadlu, rhannwyd y cytundeb i gategorïau bwyd ac ardaloedd daearyddol o fewn Gwynedd. Yn ogystal â hyn cynhaliwyd ymgysylltiad cynnar gyda'r farchnad (18 mis cyn i'r tendr gael ei gyhoeddi) ynghyd â chefnogaeth tendro un i un trwy Fusnes Cymru.
3. Yn dilyn hynny, gwelwn fod 71% o'r cynnyrch rydym yn ei brynu yn cael ei ddosbarthu gan gwmnïau sydd wedi eu lleoli yng Ngwynedd. Yn dilyn

ymdrechion gan ein cyfanwerthwyr i dderbyn cynnyrch lleol a Chymreig ble'n bosib, gwelwn fod y 100% o'r caws rydym yn ei brynu yn cael ei gynhyrchu yng Ngwynedd ac rydym yn derbyn 40% o'r tatws sydd ei angen o Wynedd. Mae 100% o Gig Eidion, 80% o'r Cig Oen a 100% o'r Llefrith yn tarddu o Gymru.

4. O safbwynt tarddiad yr holl fwyd sy'n cael ei gyflenwi gan ein cyfanwerthwyr, nid yw'n bosib darparu'r wybodaeth i'r lefel o fanylder mae'r Aelod yn dymuno ei dderbyn ar hyn o bryd. Hynny oherwydd yr ystod sylweddol o gynhwysion a bwydydd sy'n cael ei gyflenwi a hefyd natur y gadwyn gyflenwi.

5. Mae'n rhaid cydnabod hefyd bod prynu cynnyrch o Wynedd yn anodd gyda'r prif rwystrau yn cynnwys:

- Nid yw'r cynnyrch ar gael yn lleol h.y. mae hinsawdd a thirwedd Gwynedd a Chymru yn cyfyngu'r hyn all gael ei gynhyrchu.
- Nid yw cynhyrchwyr lleol yn gallu darparu'r hyn sy'n ofynnol yn y meintiau sydd eu hangen, neu nid yw'r pris yn un cystadleuol.
- O safbwynt cig yn benodol, i'r lladd-dai gytuno i roi'r adnodd i sicrhau bod y cig yn tarddu o Wynedd, byddai yn ofynnol i ni brynu symiau a thalu premiwm sylweddol am y cig.
- Mae rhan helaeth o lefrith o ffermydd Gwynedd yn mynd i Hufenfa De Arfon i wneud caws a chynhyrchion llaeth eraill, nid ydynt yn gwerthu llefrith.
- Mae'r gadwyn gyflenwi ar gyfer nifer o'r cynnyrch sy'n ofynnol yn un rhyngwladol ac nid lleol.
- Mae'n rhaid hefyd cydnabod nad yw'n bosib i ni fynnu bod cynnyrch yn tarddu o Wynedd gan fod hyn yn groes i reoliadau cyfreithiol cenedlaethol.

6. I geisio cynyddu'r gyfradd o gynnyrch o Wynedd a Chymru, mae'r Cyngor yn:

- cydweithio gyda'r cyfanwerthwyr a thrwy hynny mudiadau megis Undeb Ffermwyr Cenedlaethol (NFU), Ffermwyr Ifanc, Larder Cymru ac eraill i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sy'n berthnasol i'r sector gyhoeddus.
- adolygu'r fwydlen mewn ysgolion er mwyn gweld os all addasiadau gael eu gwneud fydd yn hybu mwy o gynnyrch Cymreig.
- Adolygu ein trefniadau prynu yn barhaus er mwyn rhoi'r cyfle gorau i gyflenwyr lleol gystadlu yn y farchnad.

7. Bydd y Cyngor yn ail-dendro'r Cytundeb Bwyd yn yr Hydref, 2023 a byddwn yn parhau i gefnogi'r farchnad leol er mwyn annog i gyflenwyr lleol gystadlu ac ennill cytundebau.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

Gofynnaf i'r Aelod Cabinet edrych i mewn i'r cymal '*Mae'n rhaid hefyd cydnabod nad yw'n bosib i ni fynnu bod cynnyrch yn tarddu o Wynedd gan fod hyn yn groes i reoliadau cyfreithiol cenedlaethol'* a gweld ydi'r rhwystr yna yn rhywbeth y gallwn ni ei oresgyn yn y dyfodol er mwyn prynu mwy yn lleol.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Jones**

Mae rheolau caffael yn eu lle i sicrhau cystadleuaeth deg a rhydd i bob ymgeisydd. Mae hyn yn golygu na allwn ofyn am gynnyrch o leoliad penodol na gofyn am frand penodol oherwydd bydd hyn yn cyfyngu cystadleuaeth, ac o bosib' yn rhoi mantais annheg i ddarparwyr penodol. Er na allwn fynnu bod cynnyrch yn tarddu o Wynedd, rydym yn y broses o dreialu trefn gaffael fydd yn gwobrwyo ymdrechion darparwyr i uchafu'r buddion lleol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ynghlwm â'r cytundeb i'r ardal leol, ac mi fyddaf yn edrych i mewn mwy iddo.

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Pa drefniadau a wnaed i baratoi asesiad *trylwyr* o effaith ieithyddol cynyddu'r Premiwm Treth Gyngor, yn unol â pharagraff 10.5 Polisi Iaith Gwynedd, ac yn neilltuol yr effaith ar niferoedd neu ganran siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

Bydd fy nghyd-aelodau'n ymwybodol fod angen iddynt ystyried yr adroddiad ar y Premiwm Treth Gyngor yn nes ymlaen prynhawn yma, yn eitem 8 ar raglen y cyfarfod.

Mae'r adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i chi yn ymestyn at 30 o dudalennau, mae'n cynnwys tri atodiad, ac mae dolenni i nifer o astudiaethau, rhai wedi cael eu cyflawni gan gyrff allanol, a rhai yn fewnol gan y Cyngor. Mae'r astudiaethau hyn yn ystyried effaith y Premiwm ar gymunedau lleol, yn ogystal ag effaith ail gartrefi ac eiddo gwag ar y cymunedau hyn. Mae yna dystiolaeth glir yn yr adroddiad sydd gerbron fod effaith y Premiwm ail gartrefi ac eiddo gwag ar yr iaith wedi cael sylw ar bob cam.

Rydw i'n nodi nad yw pob un o'r astudiaethau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn dod i'r un casgliad ynglŷn ag effaith gwahanol bolisïau ar yr iaith Gymraeg, ond rydym yn cymryd sylw o'r risgiau sy'n cael eu hamlygu ynddynt i gyd, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Nid oes astudiaeth academaidd ar wahân wedi cael ei gomisiynu wrth baratoi'r adroddiad.

Rwyf yn pwysleisio fod ystyriaeth o negeseuon yr astudiaethau hyn, a'r risgiau a amlygwyd ynddynt i'r Gymraeg ac i'n cymunedau, yn rhan allweddol o ystyriaeth y Cabinet i beidio argymell Premiwm uwch na 150% ar ail gartrefi ar hyn o bryd, er bod y ddeddf yn caniatáu codi Premiwm uwch.

O'r ymgynghoriad cyhoeddus, barn yr ymatebwyr oedd na fyddai codi'r Premiwm yn cael effaith ar yr iaith.

Mae gan y Cyngor Gynllun Gweithredu Tai yn ei le, a bwriad penodol hwn yw cyflwyno mesurau i gryfhau cymunedau Gwynedd a gwireddu'r Strategaeth Tai. Bydd cymunedau sefydlog, cynaliadwy law yn llaw â mesurau eraill yn gam yn ein gweledigaeth i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau.

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sy'n cael ei gyflwyno gyda'r adroddiad heddiw yn ein hatgoffa fod nifer o nodweddion ac agweddau yn ogystal ag effaith economaidd-gymdeithasol angen eu hystyried wrth ddod at benderfyniad polisi, yn ogystal â'r effaith ar yr Iaith.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Ydi'r Aelod Cabinet wir yn credu bod 3 brawddeg mewn adroddiad effaith cydraddoldeb o 15 tudalen yn gyfystyr ag asesiad effaith ieithyddol?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

Fel rydw i wedi crybwyll o'r blaen, mae yna nifer o astudiaethau, yn cynnwys yr effaith ar yr iaith.

## 7. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2023-24

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Gyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2023.

Ar fater cyffredinol, nododd Arweinydd y Grŵp Annibynnol y byddai'n fuddiol i'r wrthblaid a phobl Gwynedd gael gwybod ymlaen llaw ar ba eitemau ar raglen y cyfarfod hwn roedd y Blaid wedi gosod chwip ar aelodau. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Cyllid na osodwyd chwip ar unrhyw eitem ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD**

1. **Parhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2023 fel ag yr oedd yn ystod 2022/23. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

   a) **Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**
   b) **Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sydd yn y Cynllun Rhagnodedig.**
   c) **Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

2. **Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2023/24, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU GODI PREMIWM

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor am gadarnhad ffurfiol am 2023/24 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 150% neu 100% ar eiddo perthnasol o'r fath.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid amlinelliad o brif bwyntiau'r ymgynghoriad cyhoeddus, gan ddiolch i'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth am eu gwaith amhrisiadwy wrth baratoi'r ymgynghoriad a dadansoddi ei ganlyniad. Diolchodd hefyd i'w gyd-weithwyr yn yr Adran Gyllid oedd wedi cynorthwyo gyda'r gwaith.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Nododd aelod:-

- Ei fod yn croesawu'r ychwanegiadau i'r hyn fu gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ond nad oedd yn argyhoeddedig bod yr ychwanegiadau, ac yn benodol y

cyfeiriad at adroddiad Simon Brookes ar ail-gartrefi, wedi'u hystyried yn ddwys iawn.
- Bod effaith tŷ haf ar broffil ieithyddol ardal yn llai nag effaith aelwyd breswyl ddi-gymraeg, ac nad oedd yr adroddiad yn llwyr ystyried yr effaith debygol o gynyddu'r Premiwm ar y ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hynny, na'r effaith uniongyrchol sy'n debygol o fod ar y boblogaeth frodorol.
- Bod peryg' i'r cynnig, fel yr oedd, esgor ar ganlyniadau anfwriadol a gwyrdroëdig, sef yn bennaf, cymell brodorion i werthu eiddo i estroniaid a chymell perchnogion tai haf i'w troi'n aelwydydd preswyl.
- Na chredai fod yr adroddiad yn rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o weithio o adref, effeithiau'r pandemig na dyfodiad Ffordd Osgoi Bontnewydd, oedd i gyd yn hwyluso'r shifft ddemograffig.
- Nad oedd yna boblogaeth ddihysbydd o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd yma na galw cyfatebol am dai i nifer y tai haf sydd gennym yn yr ardaloedd. Roedd y sefyllfa ddemograffig/ieithyddol yn y bröydd yma yn neilltuol fregus, ac roedd adroddiad Brookes yn cyfeirio at ganlyniadau catastroffig symud yn rhy sydyn i leihau niferoedd tai haf.

Ar sail y dadleuon hyn, cynigiodd yr aelod y gwelliant canlynol, a gafodd ei eilio:-

*Na ddylid cynyddu'r Premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac y dylid cael asesiad effaith ieithyddol cynhwysfawr o effeithiau tebygol cynyddu'r Premiwm, eglurder ynglŷn â'r eithriadau, gan hefyd roi ystyriaeth lawn i'r mesurau eraill i reoli tai haf.*

Nododd aelod y byddai'n well petai'r Cyngor yn pleidleisio ar dri chymal yr argymhelliad ar wahân, gan fod yma rai pethau yma y byddai'n eu cefnogi, ac eraill y byddai'n eu gwrthwynebu.

Cefnogwyd y gwelliant gan nifer o aelodau. Nodwyd:-

- Os cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, na ddylid diystyru'r canlyniadau, ac roedd 75% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu codi'r Premiwm am resymau ieithyddol ac economaidd.
- Bod perchnogion ail-gartrefi yn gwario'n lleol, ac y byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith andwyol ar fusnesau'r ardal, megis siopau, bwytai a thafarndai, adeiladwyr, plymwyr a thrydanwyr, wrth i fwy a mwy o ail gartrefi gael eu rhoi ar y farchnad.
- Gan fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno o'r diwedd i wahaniaethu rhwng cartref a thŷ haf, ac wedi cyflwyno Erthygl 4, fel bod modd i awdurdod lleol benderfynu pa drothwyon sy'n dderbyniol mewn unrhyw gymuned, roedd perygl y gallai cynyddu'r Premiwm ar hyn o bryd danseilio'r broses honno, sy'n fregus beth bynnag, yn yr ystyr y gallai'r adwaith i'r penderfyniad hwnnw fod yn bellgyrhaeddol.
- Nad oedd cynyddu'r Premiwm am wneud tai yn fwy fforddiadwy i bobl leol, a'r diffyg swyddi o safon a'r cyflogau isel yn yr ardal oedd yn gyfrifol am y ffaith bod pobl yn methu fforddio tai, neu hyd yn oed yn mynd yn ddigartref.
- Nad oedd modd i deuluoedd lleol yn y diwydiant twristiaeth dalu mwy o Bremiwm, a beth am y bobl hynny sy'n etifeddu tŷ sydd wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau?
- Holwyd pam na allai'r Cyngor brynu rhai o'r tai sydd ar y farchnad yn Aberdyfi, a'u hadnewyddu i bobl leol eu prynu neu eu rhentu, e.e. gellid addasu tai 3 llawr yn 3 fflat. Mewn ymateb i'r sylw, nododd yr Aelod Cabinet Tai fod yna gynllun o fewn y Cynllun Gweithredu Tai, a bod yr Adran yn brysur iawn yn prynu tai sy'n dod ar werth drwy'r sir, yn cynnwys Aberdyfi, i'w rhentu neu eu gwerthu i bobl leol.
- Y credid y byddai Premiwm o 150% yn gwneud mwy o ddrwg nag o les i'r gymuned.
- Bod llawer o arian wedi'i godi drwy'r Premiwm eisoes, ond nad oedd yn cael ei wario.

Gwrthwynebwyd y gwelliant gan nifer o aelodau eraill.  Nodwyd:-

- Er bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig rhai atebion i'r sefyllfa tai haf, nad oedd hynny'n gyfystyr â Deddf Eiddo, ac nid oedd yr atebion hynny yn rhai cynhwysfawr fyddai'n mynd i wraidd y broblem.
- Mai'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned yw'r dioddefwyr yn y sefyllfa yma, ac nid perchnogion ail-gartrefi, ac na chafodd y dros 3,000 o bobl sy'n wynebu digartrefedd ac ar y rhestrau aros am dai y cyfle i fod yn rhan o'r drafodaeth.
- Bod cael cartref cysurus a diogel yn un o'n hanghenion mwyaf sylfaenol, a bod clywed y bydd 1,400 o bobl wedi mynd yn ddigartref erbyn diwedd y flwyddyn yn ddychrynllyd.  Hefyd, mae'r ffigurau ynglŷn â'r gost ychwanegol i'r Cyngor er mwyn cyflawni ei ddyletswydd statudol i gartrefu'r bobl yma yn frawychus, gyda gwariant dros £4.7m gros dros gyllideb eleni, a £6m dros gyllideb y flwyddyn nesaf.
- Y byddai cynyddu'r Premiwm i 300% dros nos yn annheg ac yn afresymol, ac y gallai'r canlyniadau fod yn niweidiol iawn.  Ar y llaw arall, pe derbynnid y gwelliant i aros ar 100%, byddai'r Cyngor yn colli'r £3m sydd ei angen i ymdrin â'r argyfwng digartrefedd, a'r unig ffordd o gyfarch y bwlch wedyn fyddai drwy dorri'r Cynllun Gweithredu Tai, y mae'r Premiwm yn helpu i'w ariannu.  Credid y byddai hynny'n gamgymeriad mawr gan y byddai'n golygu torri ar gynlluniau hirdymor i atal digartrefedd ac i helpu pobl ifanc i mewn i'r farchnad yn lleol.
- Nad cynnydd yn y Premiwm fydd yn cau busnesau lleol, eithr polisïau'r ddwy Lywodraeth dros y 12 mlynedd ddiwethaf - mesurau llymder, chwyddiant a rhyfeloedd.
- Bod dros 800 o bobl y sir yn ddigartref, rhagor na 200 yn byw mewn gwely a brecwast/ gwestai, 3,000 yn gorfod aros dros 3 blynedd i gael tŷ cymdeithasol a 60% o bobl Gwynedd yn methu fforddio un tŷ, heb son am ddau.
- Ein bod angen arfau cynllunio / tai ac adnoddau i greu'r math o gymunedau sydd eu hangen, ac er y gwerthfawrogid y ffaith bod y Llywodraeth bellach yn cydnabod ei bod yn argyfwng arnom, nid oedd yr arfau hynny yn dod yn ddigon sydyn, os o gwbl.
- Bod yna gynlluniau yn y Cynllun Gweithredu Tai i gynorthwyo pobl leol sydd wedi etifeddu tai i rentu'r tai hynny i deuluoedd lleol, yn hytrach na'u gwerthu.
- Bod mwy a mwy o bobl yn gweld ein tai fel cyfle busnes ac yn prynu'r stoc i'w osod fel Airbnbs yng Ngwynedd.  Fodd bynnag, drwy gynyddu'r Premiwm i 150%, roedd gan y Cyngor y cyfle heddiw i yrru'r neges allan nad ydym ar werth, ac i gymryd hoe er mwyn ail-edrych ar y sefyllfa.
- Nad oedd yn afresymol disgwyl i berchnogion ail-gartrefi dalu ychydig mwy na phawb arall, gan gofio, wrth gwrs, bod ganddynt yr opsiwn o dalu'n fisol.
- Bod gwestai'n dioddef gan nad oes neb yn aros ynddynt, a byddai'n well petai'r arian sy'n cael ei godi yn mynd tuag at helpu'r gwestai bach yma i gynnal eu hunain.
- Y cefnogid y cynnig ar yr amod y bydd yna fwy o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu a bod yr arian yn mynd tuag at sicrhau bod y digartref yn cael cartref yng Ngwynedd.
- Y cefnogid twristiaeth gynaliadwy y gellir ei rheoli yn y lle iawn ac o'r maint iawn, ond nid twristiaeth oedd dan sylw yma, eithr tai sy'n cael eu prynu o'r stoc tai ac yn aros yn wag am ran helaeth o'r flwyddyn.  Hefyd, ni chredid bod y ddadl ynglŷn â'r effaith ar fusnesau lleol yn dal dŵr gan fod y bobl hynny sy'n byw yma drwy gydol y flwyddyn yn defnyddio'r gwasanaethau hynny.
- Bod llawer o son am effaith cynyddu'r Premiwm ar frodorion, ond mae'r bobl hynny sy'n aros mewn llety dros dro yn frodorion hefyd.  Mae llawer o ddigartrefedd yn gudd - nid cysgu ar y stryd ydyw bob tro, ac mae'r elfen gudd yn gwneud i ni beidio sylwi neu droi llygaid dall.
- Na chredid bod y cymal Adran 106 yn rhwystr i bobl gael morgais bellach, ac y dylid annog defnyddio'r cymal hwnnw ar y tai newydd sy'n cael eu datblygu.

- Bod yna ganfyddiad nad oes swyddi ar gael yng Ngwynedd, ond mae digon o swyddi ar gael. Mae yma brinder gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd, athrawon, cymorthyddion dosbarth, doctoriaid, ayb, a mynegwyd gobaith y bydd pobl leol yn ymgeisio am y swyddi hyn, a hefyd yn ymgeisio am le yn yr Ysgol Feddygol newydd fydd yn dod i Fangor, ac yn aros yn yr ardal i weithio maes o law.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant i beidio cynyddu'r Premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac i gael asesiad effaith ieithyddol cynhwysfawr o effeithiau tebygol cynyddu'r Premiwm, eglurder ynglŷn â'r eithriadau, gan hefyd roi ystyriaeth lawn i'r mesurau eraill i reoli tai haf.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant:-

| | | |
|---|---|---|
| O blaid | 21 | Y Cynghorwyr Glyn Daniels, Anwen Davies, Dylan Fernley, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Gwilym Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Peter Thomas, Rob Triggs, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Gareth Williams a Gruffydd Williams |
| Yn erbyn | 37 | Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Beca Brown, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, R.Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Elwyn Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Elin Walker Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, June Jones, Menna Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Gareth A.Roberts, Meryl Roberts, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Rhys Tudur, Einir Wyn Williams, Elfed Williams a Sasha Williams. |
| Atal | 0 | |

Yn ei sylwadau cloi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Nad oedd gwarant bod rhai o'r datblygiadau sydd gan Lywodraeth Cymru ar y gweill am ddigwydd fory, a byddent yn cymryd cryn dipyn o amser i'w gwireddu.
- O ran y peilot yn Nwyfor, bod yna 2,138 o ail-gartrefi a 2,110 cais ar agor am dŷ cymdeithasol yn yr ardal.
- Y credai bod codi'r Premiwm i 150% yn rhesymol.

Nododd aelod nad oedd yr adroddiad yn cynnwys data digon trylwyr yn mesur yr effaith ar gymunedau a wardiau unigol, o ran faint o dai sy'n symud, ac ati, a gofynnodd i'r cynigydd ystyried ychwanegiad i'r cynnig bod effaith y Premiwm ar gymunedau yn cael ei fonitro'n dymhorol, fel y gellid gweld yr effaith o fis i fis. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd angen ychwanegu at y cynnig gan y byddai yna waith monitro effaith yn digwydd beth bynnag, ac y byddai'r Cyngor yn ystyried y mater hwn eto'r flwyddyn nesaf.

Nododd yr Arweinydd ei fod yn credu bod y pwynt a godwyd yn un teg, ac y dylid gofyn i'r Aelod Cabinet a fyddai'n fodlon derbyn yr ychwanegiad i'r cynnig. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro na chredai ei bod yn briodol newid geiriad y cynnig ar y pwynt yma gan nad oedd y mater wedi'i ystyried fel rhan o'r drafodaeth. Hefyd, roedd sicrwydd wedi'i roi y byddai'r gwaith yn cael ei wneud beth bynnag.

**PENDERFYNWYD ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, bod Cyngor Gwynedd yn:**

- **Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**

- **Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%)**
- **Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**

**9. ADRODDIAD HUNAN-ARFARNIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo a mabwysiadu adroddiad Hunanasesiad cyntaf Cyngor Gwynedd, gan edrych yn ôl ar 2021/22. Eglurwyd bod yr adroddiad yn ofyn statudol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo a mabwysiadu adroddiad Hunanasesiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22.**

**10. PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn argymell i'r Cyngor benodi Mr Mark Jones yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.

Ar ran aelodau'r Pwyllgor Safonau, diolchwyd i'r Dr Einir Young am ei gwaith yn cadeirio ac yn arwain y pwyllgor ar hyd y blynyddoedd.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod anhawster cael pobl o'r tu allan i wasanaethu fel aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, a hefyd fel aelodau lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn broblem gyffredinol, ac y byddai'r Swyddog Monitro yn gwneud y sylw hwnnw pan fyddai'n siarad nesaf gyda swyddogion y Llywodraeth.

**PENDERFYNWYD penodi Mr Mark Jones yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.**

**11 ARGYMHELLIAD PANEL CYFWELD – PENODI AELOD LLEYG O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Cyflwynodd Cadeirydd y Panel Cyfweld, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn argymell i'r Cyngor benodi Mrs Carys Edwards fel Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 5 mlynedd.

**PENDERFYNWYD penodi Mrs Carys Edwards fel Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 5 mlynedd.**

**12. CYNLLUN DEISEBAU**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Jones, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Deisebau, yn unol â gofynion Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Deisebau.**

**13. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR – ADRODD YN ÔL AR GANLYNIADAU HOLIADUR I GYNGHORWYR**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Jones, adroddiad ar ganlyniadau holiadur a yrrwyd at yr holl gynghorwyr ym mis Hydref 2022, yn ceisio'u barn ynglŷn ag amseriad cyfarfodydd y Cyngor, bodlonrwydd gyda gwasanaeth y Tim Democratiaeth a chyfathrebu gyda chynghorwyr.

Nododd aelod y byddai symud cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i 10yb yn golygu y byddai'n rhaid cynnal ymweliadau safle ar y dydd Gwener cynt, gan arwain at gostau ychwanegol diangen. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiad yn adrodd er gwybodaeth ar ganlyniadau'r holiadur, ac y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth bellach i'r canlyniadau hyn law yn llaw ag ymarferoldeb / goblygiadau newid yr amser wrth fwrw ymlaen i drefnu calendr pwyllgorau'r flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth gan ofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ddefnyddio'r canlyniadau fel sail i sefydlu calendr pwyllgorau 2023/24, yn unol ag arweiniad y Canllawiau statudol perthnasol.**

**11. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Huw Rowlands o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Bod Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu at y Llywodraethau a'r cwmnïoedd trên perthnasol, gan fynegi anfodlonrwydd am safon y gwasanaethau trên a ddarperir gan Avanti West Coast a Thrafnidiaeth Cymru yng Ngwynedd, ac effaith negyddol hynny ar drigolion ac economi'r Sir.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig gan nodi:-

- Bod y prisiau a godir am docynnau yn hollol anghymesur gyda safon y gwasanaeth, gyda threnau'n hwyr, wedi eu canslo, yn orlawn a budr, a dim gwarant o sedd, er y gall gostio hyd at £100 i deithio un ffordd o Fangor i Gaerdydd ar rai gwasanaethau.
- Bod pobl sy'n teithio i'r gwaith yng Ngwynedd, ac yn ddibynnol ar y gwasanaeth trên i wneud hynny, yn aml yn hwyr i'r gwaith wedi i drenau gael eu canslo'n ddirybudd, neu'n gorfod sefyll drwy gydol y daith.
- Bod yna enghreifftiau lu o drenau gorlawn yn mynd i Gaerdydd ar ddiwrnodau gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol, gyda'r trenau'n llawn yn gadael Bangor hyd yn oed, a dim ond 2 gerbyd, er gwaetha'r ffaith bod Trafnidiaeth Cymru yn gwybod am y gemau fisoedd ymlaen llaw.
- Bod hyn oll yn cael effaith niweidiol ar economi a lles pobl Gwynedd, a hefyd ar ein delwedd yn rhyngwladol gan ymwelwyr o dramor.
- Bod £100bn yn cael ei fuddsoddi yn Lloegr er mwyn creu gwasanaeth HS2, a hynny gydag arian trethdalwyr, gan gynnwys trethdalwyr Cymru, sef arian nad ydym ni yng Ngwynedd yn cael unrhyw fudd ohono.
- Bod y gwasanaeth uniongyrchol o Fangor i Lundain wedi'i gwtogi'n sylweddol ers y cyfnod Covid, a dim dyddiad pendant pryd y bydd y gwasanaethau yma'n cael eu hail-gychwyn i'w lefel blaenorol, os o gwbl. Dylid cofio hefyd bod y gwasanaeth o Fangor i Lundain yn cysylltu prif ddinasoedd Dulyn a Llundain, ac nid trac i unlle ydyw.
- Y gwelwyd gostyngiad sylweddol hefyd yn nifer y trenau sy'n rhedeg yn uniongyrchol o Fangor i Gaerdydd.
- Pam ddylai trigolion Gwynedd fod yn drigolion eilradd a gorfod newid yn Crewe er mwyn dal trên o Fanceinion i Lundain?
- Bod pryder hefyd ynglŷn â safon y gwasanaeth cwsmer a diffyg argaeledd rhai math o docynnau.

- Bod y gwasanaeth trên yng Ngwynedd wedi gwaethygu, nid gwella, dros y blynyddoedd diwethaf, a bod pobl Gwynedd yn haeddu gwell na derbyn yn ddi-gwestiwn gwasanaeth sydd ymhlith y salaf yn Ewrop.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Nodwyd:-

- Ei bod yn bwysig peidio cymharu Avanti West Coast gyda Rheilffordd y Cambrian a'r llinell rhwng Aberystwyth ac Amwythig, gan fod y Cambrian yn gwrando ar gwynion ac wedi buddsoddi'n sylweddol yn y rheilffordd.
- Bod angen cyswllt llawer mwy clir a hawdd a rheolaidd i'r byd o Bwllheli.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Bod Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu at y Llywodraethau a'r cwmnïoedd trên perthnasol, gan fynegi anfodlonrwydd am safon y gwasanaethau trên a ddarperir gan Avanti West Coast a Thrafnidiaeth Cymru yng Ngwynedd, ac effaith negyddol hynny ar drigolion ac economi'r Sir.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Llio Elenid Owen o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Ambiwlans Awyr Cymru a'r cyrff perthnasol i gadw'r canolfannau yn Ninas Dinlle a'r Trallwng, ac adeiladu ar y gwasanaethau yn eu lleoliadau presennol.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig gan nodi:-

- Ein bod fel cynghorwyr yn awyddus i ddatgan yn glir ein cefnogaeth a'n diolch ni, fel pobl leol, i elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud er mwyn darparu gofal brys yn ein cymunedau yn gwbl amhrisiadwy. Mae gan elusen Ambiwlans Awyr Cymru ran bwysig i'w chwarae yma yng Ngwynedd, mae'n un o'r elusennau sydd agosaf at galonnau pobl, yn arbennig yn fy nghymuned leol i yn ardal Dinas Dinlle.
- Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn wasanaeth meddygol brys tyngedfennol ac mae'n gwbl hanfodol i drigolion Gwynedd. Mae'r natur wledig a'r rhwydweithiau ffyrdd yn gwneud achub bywydau yng Ngwynedd yn heriol ar y gorau. Byddai ail-leoli'r gwasanaeth yng ngogledd ddwyrain Cymru, heb os, yn achosi mwy fyth o her i'r ardal.
- Deellir nad yw hyn yn gyfan gwbl yn nwylo'r elusen. Mae'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) a'r Pwyllgor Gwasanaeth Ambiwlans Brys yn chwarae rhan yn y cynnig a'r cynlluniau hyn, a chroesawyd y cyfle i gyfarfod â Phrif Weithredwr yr Ambiwlans Awyr, er mwyn deall eu safbwynt a'u sefyllfa hwy.
- Mae heriau eisoes yn wynebu gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ac mae yna gymunedau cyfan yma yng Ngwynedd sy'n hollol ddibynnol ar yr elusen mewn argyfwng. Sut bydd newidiadau i'r Ambiwlans Awyr yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir i drigolion Gwynedd? A fydd hyn yn golygu arafu'r ymateb brys? A fydd yna risg o golli bywydau? A oes sicrwydd na fydd unrhyw newid effaith andwyol ar gyrraedd preswylwyr?
- Mae'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys yn nodi y bydd y newidiadau i'r gwasanaeth yn lleihau annhegwch daearyddol i gleifion sydd ag anghenion gofal critigol, ond ni ddeellir sut yn union y byddai'r ail-leoli yn cyflawni hynny, ac mae'n anodd gweld sut y gallai hyn arwain at ddim byd ond amser aros hirach am ofal brys mewn rhai ardaloedd.
- Mae'r cynnig o ail-leoli yn nodi y bydd modd ateb y galw a mynd allan 580 o weithiau yn fwy'r flwyddyn, ond mae yna amheuaeth fawr ynghylch dibynadwyedd y data sy'n

cael ei ddefnyddio i drio cyfiawnhau hyn. Mae hyn wedi cael ei ategu gan ein Haelodau Seneddol, ac mae gormod o gwestiynau pwysig heb eu hateb. I'r perwyl hynny, mae Aelodau Plaid Cymru yn y Senedd wedi galw ar Brif Weinidog Cymru i gomisiynu dadansoddiad annibynnol eu hunain o'r data hyn.
- Holl bwrpas yr Ambiwlans Awyr yw gwasanaethu'r ardaloedd mwyaf gwledig, ac nid oes synnwyr o gwbl yn ei symud o Ddinas Dinlle, nac o'r Trallwng, sydd ar gyrion rhai o ardaloedd mwy pellgyrhaeddol a gwledig Cymru, a'i symud i ardal boblog ar gyrion ffordd ddeuol yr A55 yn y gogledd ddwyrain.
- Mae bywydau ein trigolion yng nghefn gwlad cyn bwysiced â bywydau trigolion yn nhrefi Cymru, ac ni ddylid gwneud unrhyw newid i'r gwasanaeth fydd yn cyfaddawdu hynny.
- Mae cefnogaeth gref iawn yn lleol i gadw'r safleoedd hyn yn eu lleoliadau presennol, ac mae'r holl drigolion sydd wedi mynychu'r cyfarfodydd cyhoeddus diweddar, a phawb sydd wedi trafod ac anfon negeseuon o bryder, yn dyst i hynny.

Mynegodd nifer o aelodau eu cefnogaeth i'r cynnig. Nodwyd:-

- Bod yr ambiwlans yn aml yn gorfod mynd rownd Dolgellau i gyrraedd cleifion yn ardal Llanbedr, oherwydd diffyg ffordd osgoi i'r pentref, a'i bod felly'n hanfodol bod yr hofrennydd yn gallu dod yno.
- Bod y cynnig o ail-leoli yn nodi y bydd modd i'r hofrennydd fynd allan 580 o weithiau yn fwy'r flwyddyn, ond mae'r ffigwr yn siŵr o fod yn uwch gan y bydd y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal fwy poblog.
- Ei bod yn drist clywed fod Prif Weinidog Cymru wedi dweud, mewn ymateb i Mabon ap Gwynfor AS, mai mater i'r elusen oedd hyn, ond os yw'r mater yn ymwneud â'r Llywodraeth mewn unrhyw ffordd, dylent ddatgan yn glir mai hwy sy'n rhoi'r pwysau.

Nododd yr Arweinydd:-

- Y cafwyd cyfarfod hynod gadarnhaol gyda Phrif Weithredwr yr Ambiwlans Awyr ynghyd â swyddog arall, yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant a'r Cynghorydd Llio Elenid Owen.
- Ei bod yn amlwg o'r drafodaeth honno bod yna ddiffyg cyfathrebu difrifol, a bod yna gefndir llawer iawn mwy cymhleth i'r trefniant nag a feddylid ar y cychwyn.
- Nad oedd y penderfyniad yn llwyr yn nwylo'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr ei hun, a bod angen sefydlu'r ffeithiau, cael y data allan yn glir ac asesu'r sefyllfa, h.y. os oes angen newid er mwyn gwella'r gwasanaeth, dylai hynny ddigwydd ar sail ffeithiau cadarn a thystiolaeth glir.
- Bod peryg y bydd yr elusen ei hun yn dioddef oherwydd yr holl ddadleuon o gwmpas y gwasanaeth, a'i fod awyddus i gydweithio cymaint â phosib' gyda hwy i gyfleu'r negeseuon cywir.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Ambiwlans Awyr Cymru a'r cyrff perthnasol i gadw'r canolfannau yn Ninas Dinlle a'r Trallwng, ac adeiladu ar y gwasanaethau yn eu lleoliadau presennol.**

(C) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Bod y Cyngor yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i ail agor rheilffyrdd Cymru, i greu rheilffordd drwy orllewin Cymru, ac yn galw arnynt am astudiaeth sgôp/dichonoldeb o'r llinell rhwng Afon wen a Bangor.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig gan nodi:-

- Bod toriadau Beeching wedi bod yn boenus iawn ar ein cenedl yn y 60au. Rhwygwyd cannoedd o filltiroedd o linellau trenau o'r ddaear, gan adael dim ond creithiau ar y tir lle arferai'r cledrau groesi am dros ganrif.
- Unwaith y diflannodd y trenau, roedd y cymunedau o gwmpas yr hen lein bellach yn bell i ffwrdd o'i gilydd, a doedd car ddim yn rhwymo'r cymunedau gwledig yma fel y byddai'r trên wedi gwneud. Yn ogystal â rhoi sicrwydd i drigolion o allu teithio o un man i'r llall, roedd y trenau'n golygu llai o bwysau ar y ffyrdd, ac yn cynnig opsiwn amgen i deithio mewn car i bellteroedd y wlad.
- Ei bod yn wallgof ei bod yn cymryd gymaint o amser i ni gyrraedd ein prifddinas ein hunain, a'n bod yn cael ein gorfodi i fynd drwy wlad arall er mwyn ei chyrraedd.
- Ei bod yn allweddol bod gan Gymru linell sy'n cysylltu ein cymunedau unwaith eto.
- Byddai'r llinell ar ei newydd wedd, nid yn unig yn cysylltu ein cenedl ar y tu mewn, ond yn rhoi hwb anferthol i'n heconomi, gan greu swyddi newydd, cyfleoedd am ddatblygiadau economaidd newydd, a byddai'n sbardun i'r cymunedau gwasgar o gwmpas y Sir.
- Byddai rheilffordd o'r de i'r gogledd, nid yn unig yn asgwrn cefn modern i'n system drafnidiaeth genedlaethol ni, ond hefyd yn atgyfnerthu ein hyder ni fel cenedl.

Mynegodd nifer o aelodau eu cefnogaeth i'r cynnig.

Nododd aelod bwysigrwydd sicrhau na fyddai unrhyw gynlluniau i ail-agor rheilffyrdd yn amharu ar lonydd glas, megis Lôn Eifion.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Bod y Cyngor yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i ail agor rheilffyrdd Cymru, i greu rheilffordd drwy orllewin Cymru, ac yn galw arnynt am astudiaeth sgôp/dichonoldeb o'r llinell rhwng Afon wen a Bangor.**

**11. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn i gyfarfod 6 Hydref, 2022 o'r Cyngor ynglŷn â'r teitl Tywysog Cymru.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 5.05 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**